

## VAUGHAN (TEULU), Hergest, neu Herast, ym mhlwyf Ceintun ('Kington'), sir Henffordd.

Y cyntaf o'r FYCHANIAID hyn oedd THOMAS AP RHOSIER FYCHAN, mab [Rhosier Fychan](#), Brodorddyn, a laddwyd ar faes Agincourt - gweler teulu [Vaughan](#), Brodorddyn. Gwladus ferch [Dafydd Gam](#) oedd ei fam. Yr oedd, felly, yn frawd cyflawn i [Wacyn Fychan](#), Brodorddyn, a [Syr Rhosier Fychan](#), Tre'r T r - gweler teulu [Vaughan](#), Tre'r T r, ac yn frawd unfam i [Syr William Herbert, Iarll Penfro](#), ac i [Syr Rhisiart Herbert](#). Ei wraig oedd Elen Gethin, ferch Dafydd ap Cadwgan ap Phylip Dorddu, un o Fychaniaid Tyleglas. Y cofnod cynharaf amdano yw ei fod yn gwnstabl castell Huntingdon (ryw ddwy filltir o Hergest), yn 1422. Yr oedd yn rhysyfwr arglwyddiaethau Aberhonddu, y Gelli, a Huntingdon, yn 1453-4. Yn Senedd Coventry, 1457, rhoddwyd pardwn cyffredinol iddo ef fel i nifer o'i berthnasau a'i gymdogion, arwydd yn ddiamau fod cynghorwyr Harri VI yn gobeithio eu cadw rhag myned yn llwyr drosodd at blaid Iorc. Yn 1460 eto gosodwyd ef ar gomisiwn i gymryd meddiant o gestyll a maenorau 'r dug Iorc ac Iarll Warwig yn Elfael, Maelienydd, Gwerthrynion, a gororau sir Henffordd, yn enw'r brenin. Yn 1461, fe'i penodwyd eto yn rhysyfwr y tair arglwyddiaeth tra y byddai aer dugiaeth Buckingham o dan oed. Ond fel ei frodyr, drosodd at yr Iorciaid yr aeth yntau. Fe'i gwelir gyda hwy ar gomisiynau 'oyer et terminer' yng Ngogledd Cymru yn 1467, ac yn eu cwmni hwy yr ymdeithiodd i'w dranc ar faes Edgecote, ger Bambri, 1469. Y mae ansicrwydd am ddydd ei farw. Tybiai [Evans](#) (*Wales and the Wars of the Roses*, 177), ar sail awgrym gan [Guto'r Glyn](#), mai mewn sgarmes ragarweiniol ddydd Llun, 23 (24 sy'n gywir) Gorffennaf, y syrthiodd. O'i farwnadau, gan [Lewis Glyn Cothi](#), gellid casglu mai yn y brif ornest ar y 26ain y lladdwyd ef, ac yr oedd traddodiad yn y teulu yn amser y [Dr. Siôn Dafydd Rhys](#) mai ef, ac nid [Syr Rhisiart Herbert](#), oedd gwron y frwydr honno. Cludwyd ei gorff adref i Geintun i'w gladdu, ac, er bod arno olion cryn adnewyddu, ers y beddrod alabastr a gododd ei weddw yn yr eglwys honno hyd heddiw. Dywedir ei fod yn 69 oed pan fu farw. Yn y llyfrau achau, disgrifir ef fel arglwydd Hergest, Bleddfach, Nash, a Llaneinion. Yr oedd ei weddw yn byw yn Nash, ger Llanandras, yn 1474, pryd y sicrhaodd bardwn y pab i'r sawl a weddi'ai dros enaid ei g r. Y mae traddodiad iddi hi, â'i llaw ei hun, ladd ei chefnwr Siôn Hir ap Phylip Fychan, am iddo ef ladd ei brawd Dafydd Fychan o Linwent yn Llanbistair. Bu i Domas ac Elen dri mab, Wacyn Fychan, Rhisiart Fychan, a fu farw yn fuan ar ôl ei dad (gweler marwnad [Lewis Glyn Cothi](#) iddo - 'Pregeth i Elen Gethin'), a Rhosier Fychan - teulu [gweler Vaughan](#), Cleirwy - ac un ferch, Elis gwraig Robert Whitney, y canodd [Lewis Glyn Cothi](#) awdl briodas iddynt ('O Dduw! pwy 'nglan Gwy'). Cadwodd yr etifedd, WACYN FYCHAN, at y traddodiad a wnaeth Hergest yn gyrchfan prif feirdd Cymru yn y 15fed ganrif. Am dair cenedlaeth bu Hergest yn gartref i ddiwylliant Cymru. Yno yr oedd 'Llyfr Coch Hergest,' sydd yn awr yn llyfrgell Bodley yn Rhydychen, a 'Llyfr Gwyn Hergest,' y casgliad hwnnw o ryddiaith a barddoniaeth Gymraeg (y tybir i [Lewis Glyn Cothi](#) gopïo y rhan fwyaf ohono) a gollwyd yn nhân Covent Garden yn 1808. Gwraig Wacyn Fychan oedd Sibyl ferch Syr John Baskerville, ac yres Syr Walter Devereux. Rhoes ei gefnwr, [William Herbert, Iarll Huntingdon](#), iddo swyddi stiward a rhysyfwr castell ac arglwyddiaeth Huntingdon, sir Henffordd, yn 1484, a gwnaethpwyd ef yn synysgal arglwyddiaeth Aberhonddu gan [Thomas ap Syr Rhosier Fychan](#), Tre'r T r. Yr oedd yn gyflafareddwr mewn achos llofruddiaeth yn 1485 (B.M. Harl. MS. 6079). Uchel oedd clod y beirdd iddo. Dywed [Tudur Penllyn](#) ei fod yn llywodraethwr holl drethi Powys ac yn gwnstabl ar lan Fyrnwy ac ar lan Gwy. Cofnodir naw o blant iddo. Digon enwi'r etifedd JAMES VAUGHAN, a'r ail, ROGER VAUGHAN, a briododd Ellen ferch Syr Thomas Cornwall. Merch Roger oedd Sybil a briododd Huw Lewis, Tre'r Delyn, un o'r comisiynwyr a arwyddodd drwydded farddol [Gruffudd Hiraethog](#) yn 1545, a thad [John Lewis](#), Llynwenne. JAMES VAUGHAN, Hergest, oedd y comisiynwr arall. Ei wraig ef oedd Elisabeth, ferch ac aeres Syr Edward Croft. Bu eu hetifedd, CHARLES VAUGHAN, yn aelod seneddol sir Faesyfed, 1553. Ei wraig gyntaf ef oedd Elisabeth, ferch Syr James Baskerville, Eardisley, a'i ail, Margaret ferch [Syr William Vaughan](#), Porthaml, a gweddw [Roger Vaughan](#), Cleirwy. Ail fab o'r wraig gyntaf oedd Robert Vaughan, siryf Maesyfed, 1562-3, a 1567-8, ac aelod seneddol bwrdeisdref Maesyfed, 1554 a 1559, yn ôl [W. R. Williams](#), ond nid oes sicrwydd am hyn. WALTER VAUGHAN oedd yr etifedd. Dilynwyd hwnnw gan ei fab JOHN VAUGHAN, a ysgrifennodd at [Syr Robert Harley](#) yngl n â'r pla yn Llanandras, 23 Medi 1636. Ei etifedd ef oedd JAMES VAUGHAN, a ymaelododd yn Rhydychen yn 16 oed, 16 Tachwedd 1621. JOHN VAUGHAN oedd ei etifedd ef. Ymaelododd SILVANUS VAUGHAN, mab John Vaughan, yn Rhydychen, 17 Mawrth 1676, yn 17 oed, a graddio'n M.A. yn 1682. Bu'n rheithor Tilston, sir Gaer, a chladdwyd ef yng Ngheintun 9 Gorffennaf 1706. Drwy Frances, merch John Vaughan, yr aeth yr etifeddiaeth. Priododd hi William Gwyn Vaughan, Trebarried (a fu farw 1752), a ddisgynnai o un o blant gordderch [Syr Rhosier Fychan](#), Tre'r T r.

### Awdur

Evan David Jones, (1903 - 1987)

### Ffynonellau

*Llawysgrifau Peniarth yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth* 140, 354

*The Transactions of the Radnorshire Society*, viii, 8-17

Cardiff deeds, Breck., 4

*Calendar of Patent Rolls*

Howell T. Evans, *Wales and the Wars of the Roses* (Cambridge 1915)

Ancient Monuments Commission, *An inventory of the historical monuments in Herefordshire* (Great Britain. Royal

*commission on the ancient and historical monuments and constructions of England*) (Llundain 1931-1934), iii, 90  
M.M.I., *The History of Kington. with an appendix by a member of the Mechanics' Institute, of Kington* (Kington 1845), 98  
cywyddau Bedo Brwynllys, Dafydd Llwyd, Guto'r Glyn, Hywel Dafu, Hywel Swrdwal, Huw Cae Llwyd, Lewis Glyn Cothi, Llawdden, Tudur Penllyn, etc.

*The Visitation of Herefordshire* (1569). (1569)

W. R. Williams, *The parliamentary history of the principality of Wales, from the earliest times to the present day, 1541-1895* (Brecknock 1895)

Theophilus Jones, Edwin Davies, Joseph Russell Bailey, *History of the County of Brecknock*, iii, 318, 506

Foster, *Alumni Oxonienses*

*Reports of the Historical Manuscripts Commission*, Portland, iii, 40

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q18530938](https://www.wikidata.org/wiki/Q18530938)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

